

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 8 Rhagfyr 2021**

<b>Eitem ar yr Agenda</b>	<b>Pwnc</b>	<b>Penderfyniad</b>
<b>1</b>	YMDDIHEURIADAU	Y Cyngorydd Joan Butterfield
<b>2</b>	DATGANIADAU CYSYLLTIAD	<p>Datganodd y Cyngorydd Brian Jones gysylltiad personol sy'n rhagfarnu ag eitem 6 ar y rhaglen, oherwydd ei fod yn adnabod yr ymgeisydd.</p> <p>Datganodd y Cyngorydd Barry Mellor gysylltiad personol sy'n rhagfarnu ag eitem 6 ar y rhaglen, oherwydd ei fod yn adnabod yr ymgeisydd.</p>
<b>3</b>	MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD	Ni chodwyd unrhyw fater bryn.
<b>4</b>	COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF	<b>PENDERFYNWYD</b> derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2021 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.
<b>5</b>	RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2022	<p><b>PENDERFYNWYD –</b></p> <p>(a) nodi cynnwys yr adroddiad, a</p> <p>(b) cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol diwygiedig ar gyfer 2022 fel y manylir yn atodiad yr adroddiad i'w gymeradwyo.</p>
<b>6</b>	CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 554278	<b>Penderfynwyd</b> bod y gwaith o ystyried y cais ar gyfer trwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 554278 yn cael ei ohirio tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trwyddedu sydd wedi'i drefnu ar gyfer ar 2 Mawrth 2022.